OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 832

# Rheoliadau Addysg (Cofnodion Disgyblion) (Cymru) 2001

### Ystyr cofnodion addysgol

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "cofnod addysgol" ("*educational record*") yw unrhyw gofnod o wybodaeth —

(a) a brosesir gan neu ar ran corff llywodraethu unrhyw ysgol a bennir ym mharagraff (2), neu gan neu ar ran athro yn yr ysgol honno;

(b) sy'n ymwneud ag unrhyw berson sy'n ddisgybl neu sydd wedi bod yn ddisgybl yn yr ysgol; ac

(c) a ddaeth oddi wrth neu a roddwyd gan neu ar ran unrhyw un o'r personau a bennir ym mharagraff (3),

heblaw gwybodaeth a brosesir gan athro at ddefnydd yr athro yn unig.

(2) Dyma'r ysgolion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) —

(a) ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol; a

(b) ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal felly.

(3) Dyma'r personau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(c) —

(a) gweithiwr a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol;

(b) yn achos —

(i) ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol sefydledig neu ysgol arbennig sefydledig; neu

(ii) ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal gan awdurdod addysg lleol,

athro neu weithiwr cyflogedig arall yn yr ysgol (gan gynnwys seicolegydd addysgol a gymerir ymlaen gan y corff llywodraethu o dan gontract am wasanaethau);

(c) y disgybl y mae'r cofnod yn berthnasol iddo; ac

(ch) rhiant i'r disgybl hwnnw([1]).

([1]) Yr un diffiniad yw hwn â'r diffiniad o "educational record" a geir yn Atodlen 11 i Ddeddf Diogelu Data 1998 (p.29).